



Ein cyf/Our ref WQ98647

Gwyn Williams AS
Gŵyr Abertawe

11 Mehefin 2026

Annwyl Gwyn,

Diolch am eich cwestiwn ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried disodli Iechyd a Gofal Digidol Cymru yng ngoleuni ei berfformiad ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod arwyddocâd y materion a arweiniodd at uwchgyfeirio Iechyd a Gofal Digidol Cymru i Lefel 4, gan adlewyrchu pryderon ynghylch cyflawni rhaglenni, llywodraethiant ac arweinyddiaeth.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol o hyd am wasanaethau digidol, data a thechnoleg ar draws GIG Cymru. Mae uwchgyfeirio corff i Lefel 4 yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer goruchwyllo cryfach, ymyrraeth sy'n targedu'r angen, a chymorth uniongyrchol i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwella'r lefelau cyflawni.

Y flaenoriaeth gyntaf yw sefydlogi perfformiad ac adfer hyder, gan fonitro'r cynnydd yn agos.

Ar yr un pryd, mae yna Strategaeth Ddigidol a Data 10 mlynedd tymor hirach ar y gweill ar gyfer GIG Cymru, gan gynnwys datblygu llwybr cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd nesaf i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen nid yn unig i fynd i'r afael â'r heriau cyflawni cyfredol, ond i sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa i gyflawni yn erbyn yr uchelgais o sicrhau system Iechyd a gofal digidol fwy integredig a modern, sy'n ymateb i'r unigolyn dros y degawd nesaf.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r trefniadau gweithredu yn rheolaidd wrth i welliannau ymsefydlu, gan sicrhau bod gan GIG Cymru y gallu a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgeisiau digidol yn effeithiol. Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu pwyslais ar gryfhau'r cyflawni o fewn y fframwaith sefydliadol presennol, yn hytrach na newid strwythurol, gan gynnal y systemau atebolrwydd clir ar yr un pryd o ran cynnydd a chanlyniadau.

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ
Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mabon.apGwynfor@llyw.cymru
Correspondence.Mabon.apGwynfor@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mabon ap Gwynfor'.

Mabon ap Gwynfor AS

Y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal
Cabinet Minister for Health and Care